



**Ysgol Pen-y-Bryn**

(Prifathro/Headteacher: Mr G.E Thomas)  
[GethinElisThomas@gwynedd.llyw.cymru](mailto:GethinElisThomas@gwynedd.llyw.cymru)

Bethesda  
Gwynedd  
LL57 3BE  
(01248) 600375  
[www.ysgolpenybryn.org](http://www.ysgolpenybryn.org)

**Ysgol Abercaseg**

Bethesda  
Gwynedd  
LL57 3PL  
(01248) 600194  
[www.ysgolabercaseg.org](http://www.ysgolabercaseg.org)

**Ysgol  
Abercaseg**

**18/09/20**

Annwyl Riant /Ofalwr



**Trefniadau'r ysgol pe byddai achos o'r coronafeirws wedi ei gadarnhau yn yr ysgol.**

Ysgrifennwn atoch i'ch hysbysu o'r drefn y byddwn yn ei dilyn pe byddai achos o'r coronafeirws wedi ei gadarnhau yn yr ysgol.

Os y bydd yr ysgol yn derbyn cadarnhad o achos coronafeirws yn yr ysgol byddwn yn adnabod pob disgybl sydd wedi rhannu swigen â'r person hwnnw yn unol a chanllaw sydd wedi eu gytuno gan yr Awdurdod Lleol a gwasanaeth Profi Olrhain a Diogelu Gwynedd. Yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol, fe all hyn gynnwys swigen ddosbarth, clybiau cyn neu ar ôl ysgol neu rai sydd wedi rhannu cludiant i'r ysgol.

Os y byddwn yn derbyn cadarnhad yn ystod diwrnod ysgol fe fyddwch yn derbyn neges a fydd yn gofyn i chi ddod i nôl eich plentyn o'r ysgol yn syth. Ni fydd caniatâd i'ch plentyn fynd adref ar gludiant ysgol na chludiant cyhoeddus.

Os y byddwn yn derbyn cadarnhad y tu allan i oriau ysgol fe fyddwch yn derbyn neges a fydd yn gofyn i chi gadw eich plentyn adref.

Fe fydd yn **ofynnol i'ch plentyn aros gartref**, peidio â mynychu'r ysgol, peidio mynd allan i wneud ymarfer corff, peidio ymweld â siopau, teulu na ffrindiau, na mynd i fannau cyhoeddus eraill. Ni ddylech wahodd pobl i'ch tŷ.

Bydd aelod o dîm Profi, Olrhain a Diogelu Gogledd Cymru yn cysylltu â chi maes o law i egluro'r sefyllfa ac i gadarnhau tan bryd fydd rhaid i'ch plentyn ynysu.

Os bydd eich plentyn yn aros yn iach ni fydd angen i aelodau eraill yr aelwyd ynysu a gallant barhau â'u gweithgareddau arferol.

Os nad yw eich plentyn wedi ei adnabod fel rhan o'r swigen cyswllt agos y person sydd wedi profi'n bositif yna bydd disgwyl i'ch plentyn barhau i fynychu'r ysgol.

Gofynnir i holl rieni'r ysgol ddilyn canllawiau'r ysgol yn y mater hwn yn hytrach na dilyn unrhyw wybodaeth answyddogol a rennir ar y cyfryngau cymdeithasol.

Yn gywir

Gethin E Thomas

*"Gallwn roi dau beth pwysig i'n plant, un yw gwreiddiau a'r llall yw adenydd"*